

GWEITHIO GYDA GWARTHEG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Bob blwyddyn, mae pedwar neu bump o bobl yn cael eu lladd wrth weithio â gwartheg.

Mae llawer ohonyn nhw'n digwydd am fod gweithwyr yn mynd yn esgeulus ac yn ddi-hid heb ofalu eu hunain rhag ymddygiad greddfol eu gwartheg. Gall anafiadau arwain at golli llawer o waith – a gall y ddamwain ddigwydd i bobl eraill ar eich fferm – i'ch milfeddyg er enghraifft.



Wrth weithio â gwartheg, meddyliwch beth allai gynyddu'r peryglon:

- Defnyddio gatau o gyflwr drwg yn hytrach na rhedfa a chraets wedi'u dylunio a'u cynnal yn dda
- Anifeiliaid sy'n anghyfarwydd â chael eu trafod, fel y rheini sy'n cael eu cadw ar y brynau a'r rhosydd
- Rhagdybio bod anifail 'mor ddof â chath', yn enwedig teirw
- Anghofio mor gryf yw greddf buwch i amddiffyn ei llo
- Cadw gwartheg rydych chi'n gwybod sy'n rhai ffyrnig
- Gweithio ar eich pen eich hun â gwartheg, yn enwedig buchod â lloi
- Heb drefnu neu feddwl am ffordd ddianc – gallech eu cynllunio'n rhan o'ch lloiau – defnyddiwch gerbyd os ydych allan yn y cae
- Anghofio am eich oed, eich ieuchyd a'ch diffyg sioncrwydd a beth sy'n ymarferol i chi, yn enwedig ar eich pen eich hunan.

Rhaid rhybuddio ymwelwyr am y peryglon – mae dyletswydd gyfreithiol i'w cadw'n ddiogel tra'u bod ar eich fferm.

Am ragor o fanylion am offer trin gwartheg a systemau gweithio'n ddiogel, ewch i www.hse.gov.uk/pubns/ais35.pdf. Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch gweithwyr wedi cael digon o hyfforddiant a'ch bod yn addas i weithio gyda gwartheg. Am gyngor ar hyfforddiant, cysylltwch â Lantura ar 01982 552646.

**BYDDWCH WASTAD
YN BAROD I DDISGWYL
YR ANNISGWYL
GAN GWARTHEG.**

I ddysgu mwy am ieuchyd a diogelwch ar y fferm, ewch i
www.hse.gov.uk/agriculture

